REES, EDWARD WALTER ('Gwallter Dyfi '; 1881 - 1940), rheolwr banc a cheidwad cledd yr Orsedd

Enw: Edward Walter Rees
Ffugenw: Gwallter Dyfi
Dyddiad geni: 1881
Dyddiad marw: 1940
Priod: Frances Anne Rees (née Richards)
Rhiant: Jane Rees (née Jones)
Rhiant: Richard Rees
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: rheolwr banc a cheidwad cledd yr Orsedd
Maes gweithgaredd: Economeg ac Arian; Eisteddfod
Awdur: Mary Auronwy James

Ganwyd 8 Hydref 1881 yn fab i Richard Rees ('Maldwyn ', bu farw 1927) a Jane (ganwyd Jones) ei wraig, Medical Hall, Machynlleth, Trefaldwyn. Mynychodd ysgol sir Machynlleth cyn mynd i weithio mewn banc, gan ddod yn rheolwr Banc Barclay yn Aberteifi ac wedyn yng Nghaerfyrddin (1926-40). Priododd, 8 Rhagfyr 1914, â Frances Anne Rees, Goleufryn, Eglwys Newydd, Morgannwg, a bu farw 24 Ebrill 1940, gan adael dau fab a merch. Yr oedd yn sylfaenydd ac ysgrifennydd Cymdeithas Cymrodorion Aberteifi ac yn aelod o nifer o gymdeithasau diwylliannol eraill. Ef oedd ysgrifennydd Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin, 1911, a bu'n geidwad cledd Gorsedd y Beirdd am gyfnod maith, 1913-40. Golygodd golofn Ceredigion a Phenfro yn y *Cardigan and Tivyside Advertiser* am gyfnod. Yr oedd ganddo gasgliad da o hen lyfrau a llawysgrifau Cymraeg ac yn 1938 etholwyd ef yn drysorydd Cymdeithas Lyfryddol Cymru.

Awdur

Dr Mary Auronwy James

Ffynonellau

Mynegai Bywgraffyddol W. W. Price

Cardigan and Tivyside Advertiser, 28 Mai 1926

Darllen Pellach

Local weddings: Rees-Richards *Carmarthen Journal*, 11 Rhagfyr 1914, t.5

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360844

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu